# BASIL

## 1 HAU DY HADAU

O ddiwedd Mawrth ymlaen, gelli di hau tua 10 o hadau ar wyneb y compost mewn potiau. Rho ychydig o gompost drostyn nhw. Cadwa nhw yn y tŷ gwydr. Gwna hyn bob wythnos i sicrhau cyflenwad cyson o ddail basil ffres.


Neu gelli di hau'r hadau rhwng y planhigion sy'n tyfu'n barod neu o gwmpas ymylon y gwely llysiau pan fydd dim perygl o rew mwyach.

## 2 TENEUO

Os yw'r basil yn tyfu mewn gwely llysiau, pan fydd y planhigion bach yn 5-10cm o daldra, tynna'r rhai gwannach fel bod tua 10cm rhwng y planhigion sydd ar ôl.

## 3 CYNAEAFU

Dylet ti hel y dail pan maen nhw'n ifanc, er mwyn annog mwy i dyfu. Torra nhw gyda siswrn neu eu tynnu gyda dy fys a bawd. Gelli di hel y dail drwy'r haf a'r hydref.






Newydd egino



Barod i'w hel

### COFIA

Os bydd blodau'n ymddangos, tynna nhw ar unwaith i annog dail i dyfu.

Defnyddia'r dail ffres i wneud pesto.

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES